# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION


'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 42. RHIF 10 | MAWRTH 2021 | 50c


# ADEILADAU HYNAF LERPWL



*Adeilad y Lyceum yn Bold Street, Lerpwl*




*Priordy Penbedw*



*Neuadd Speke*



*Y Bluecoat Chambers*



*All Saints Church, Childwall*



*Yr Oratory, Upper Duke Street, wedi ei leoli yn nhir y Gadeirlan Anglicanaidd*

Golygyddol

# GŴYL DDEWI ELENI
## – gan D. Ben Rees

Y mae coronafeirws yn gwbl sicr bron a llwyddo i'n amddifadu ni o'n Gŵyl Genedlaethol. Golygai Dydd Gŵyl Ddewi gymaint i ni yr alltudion yn Cilgwri, Lerpwl a Manceinion. Cynhelid yr Ŵyl mewn ffordd deilwng gyda chân a neges gan bobl arbennig yn dod atom o Gymru yn ogystal â chyfle i gymdeithasu oamgylch y byrddau, ac yna ar y Sul cynnal oedfa Gŵyl Ddewi. Ond yr ydym wedi llwyddo i ddathlu yr Ŵyl a hynny ar Noson Gwyl Ddewi dros y *zoom* (1 Mawrth 2021 am 7.30 o'r gloch) pan y cawn wrando ar un o'n ysgolheigion pennaf Dr. Bleddyn Owen Huws o Brifysgol Aberystwyth yn darlithio ar *Carneddog a'i Oes*. Bydd hon yn ddarlith ddifyr, diddorol a chofiadwy. Croeso i bawb.


*Dr. Bleddyn Owen Huws*

Yna ar fore Sul, 7 Mawrth cawn oedfa Gŵyl Ddewi ar *zoom* o Lerpwl. Oedfa Gŵyl Ddewi arall a ninnau yn cofio Dewi Sant a Oes y Saint a'i Chyfraniad Ewropeaidd. Cawn ein hatgoffa hefyd o'r Eglwys Geltaidd. Dyma wedi'r cyfan oedd un o ddadleuon William Salesbury ac Esgob Richard Davies a Phrotestaniaid eraill ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg.

Dweud a wnai'r rhain fod elfennau Protestaniaeth i'w ganfod yn amlwg yn yr Eglwys Geltaidd. Erbyn yr ugeinfed ganrif yr oedd ysgolheigion fel Dr. Nora Chadwick a Dr. Kenneth Jackson o'r Alban yn cydnabod hynny, sef y syniad o Cristongaeth Geltaidd. Apeliai hyn yn fawr at bawb sy'n Brotesaniaid, ac yr ydym bellach ar dir diogel i ddweud fod cysylltiadau pendant rhwng eglwysi'r Celtiaid â'i gilydd yn Oes y Saint.

Arhoswn am eiliad i ystyried perthynas Cymru gyda Chernyw, sir hyfryd a hanesyddol. Yn Oes y Saint bu perthynas agos iawn rhyngom. Anrhydeddwyd seintiau o Gymru fel Cadog a Phedrog yng Nghernyw a seintiau o Gernyw fel Dochau a Piran yng Nghymru. Cadog wedi'r cyfan oedd un o arweinwyr crefyddol amlycaf ei gyfnod. Ef oedd sylfaenydd yr Ysgol yn Llancarfan. Cysegrwyd sawl eglwys iddo yng Nghymru, Cernyw, Llydaw a'r Alban. Ei ddydd gŵyl ef yw 24 Ionawr ond ni wn am un cymuned sydd yn dathlu'r dydd. Beth am ddechrau Gymry Manceinion, Lerpwl a Chilgwri yn 2022 ar *zoom*?!

Bu'r saint yn genhadon o ddifrif. Rhaid peidio rhoddi'r argraff mai yn y ddeunawfed ganrif y bu'r Cymry yn amlwg fel cenhadon yn y Diwygiad Methodistaidd. O na, teithiodd Samson i Gernyw i genhadu ac i Lydaw, aeth Nynio at y Pictiaid a Padrig i Iwerddon, a bu Dewi ar hyd a lled De Cymru i Wlad yr Haf. Oes ymarferol gyfoethog oedd oes Dewi Sant ac yn arbennig Oes y Saint. Dyna neges Dewi i ni yn 2021:

*Arglwyddi, frodyr a chwiorydd byddwch lawen a chredwch eich ffydd a'ch cread. A gwnewch y pethau bychain a glywsoch gennif i.*

Llawenydd yw un o hanfodion Cristnogaeth i fywyd y ddynoliaeth. Ond mae'n anodd llawenhau pan yr ydym wedi ein hamgylchynu gyda cyfyngderau o hunan ynysu ers blwyddyn o amser. Pwy fyddai'n meddwl y gwelid Ysgolion Prydain bron ar gau a miliynau o blant yn cael ei haddysg adref mewn amgylchiadau anaddas i ddysgu heb eu cyfoedion. Y mae Ysgol yn fwy na chanolfan i hyfforddi plant i ddarllen a rhesymu, a deall a chreu, mae'n fangre cyfeillgarwch a rhannu cyfrinachau gyda'i cyfeillion. Ni ddigwydd hynny yn hanes helaeth o blant bellach. Mae llawenydd creadigol yn anadl einioes capel, ysgol, cartref a gwladwriaeth. Rydym wedi blino bellach ar yr ansicrwydd, y darogan na ddaw pethau yn normal hyd mis Hydref os hynny, y pesimistiaeth sydd yn naturiol yn meddiannu y cryfaf ohonom. Gwerthfawr felly yn nyddiau Cofid-19 yw pregeth olaf Dewi Sant ar gyflawni y pethau bychain, golchi'n dwylo'n gyson, cadw draw o'n gilydd pum troedfedd, peidio ymuno mewn cynulleidfa heb fwgwd ar wyneb pob un sydd yno. Dyna'r pethau bychain ein dyddiau adfydus ni!

Ac felly, cadwn y ffydd a cherwch eich gilydd. Meddai Crist, Ceidwad Dewi, 'cerwch eich cymydog', a all fod yn unig, yn ofidus, a cherwch y rhai sydd yn eich cynnal mor ymarferol ag y medrant. Dyna un ffordd i godi calon ar ddiwrnod arall, ac mae'r rhyngrwyd, y ffôn arhosol a'r ffôn symudol wrth law, a'r cerdyn neu air o lythyr yn dderbyniol hefyd. Cadwn Ŵyl Ddewi eleni ar ei newydd wedd ond heb anghofio ei neges gyfoes i bob un ohonom.

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Ebrill 2021** erbyn bore Llun, 1 Mawrth 2021 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Mai 2021** – erbyn bore Iau 1 Ebrill, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Iau, Ebrill 1.
- **Rhifyn Mehefin 2021 –** erbyn bore Sadwrn, 1 Mai, 2021, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/3/2021.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**

*YSGRIF GOFFA*

# Parchedig Kathie Bennett

## *Lerpwl*

**Derbyniais neges oddi wrth David Mawdsley am farwolaeth y Parchedig Kathie Bennett ar ddydd Iau, 21 Ionawr 2021 a chydymdeimlwn â'i theulu, y ferch a'r meibion yn ei galar a'r golled. Am gyfnod da bu Kathie yn fawr ei diddordeb yn y bywyd Cymraeg Lerpwl a chofiaf hi yn dda yn mywyd Pwyllgor Gwaith yr Eglwysi Rhyddion. Ordeiniwyd hi yn Weinidog gyda Eglwys Bresbyteraidd Cymru a bu yn barod ei chymwynas o fewn Henaduriaeth Sir Gaerhirfryn a Sir Gaer. Yn 2003 derbyniodd yr alwad i fugeilio yr Eglwys Annibynnol Cymraeg a gyfarfyddai yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn Lance Lane. Yn wir yr oedd hi yn gweinidogaethu gyda'r Eglwys Diwygiedig Unedig ac felly yr oedd wedi dod i nabod y gynulleidfa ffyddlon a ddeuai ynghyd ar bnawn Sul i addoli yn un o ystafelloedd yr enwad.**

**Gan nad oedd yn rhugl yn Gymraeg byddai hi yn mynychu yr oedfaon Cymraeg ar bnawn Sul, ac yn cymeryd rhan yn y gweithgareddau a drefnwyd gennym ym Methel yn arbennig. Roedd hi wrth ei bodd yn cymeryd rhan yn Oedfaon Gŵyl Ddewi yn Neuadd y Ddinas. Daliodd a chysylltiad gyda'r enwad a'i hordeiniodd a byddai'n mynychu cyfarfodydd a chyrsiau yn y Ganolfan yn Nhrefeca. Roedd ganddi galon i fugeilio a byddai yn dod yn gyson ar y ffôn i sôn am Gymry oedd yn yr Ysbyty, neu mewn galar.**

**Roedd ganddi bersonoliaeth annwyl a chariad at waith y Deyrnas. Eciwmenydd o'r iawn ryw gan iddi wasanaethu tri enwad, yr Eglwys Bresbyteraidd, Eglwys Ddiwygiedig Unedig a enwad yr Annibynwyr Cymraeg. Talodd Ysgrifennydd yr enwad, y Parchedig Ddr. Geraint Tudur Jones deyrnged iddi pan fu'n rhaid datgorffori Capel olaf yr Annibynwyr Cymraeg yn ninas Lerpwl yn haf 2009.**



**Diolchwn am fywyd a gwasanaeth y Parchedig Kathie Bennett a bu ei harwyl yn Eglwys Anglicanaidd, St. Bartholomew, Roby ac Amlosgfa Springwood ar ddydd Gwener, 5 Chwefror.**

***D. B. Rees***

## *CROESO BIDEN*

Ar ôl y maith ffarwelio – â'n Donald
a'r dinistr oedd eiddo,
daeth, nid sant, dyn desant, do
â mwynder cadarn mendio

*Prifardd Siôn Aled Owen, Wrecsam*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Fel arfer anfonwn ein cyfarchion cynnes i ddarllenwyr *Yr Angor* gan obeithio eich bod yn cadw yn iach.

Erbyn hyn mae llawer ohonom wedi cael y brechlyn ac eraill yn disgwyl ei gael yn fuan.

Dyma mis Ionawr wedi mynd ac wedi gadael llifogydd, rhew ac eira a thywydd hynod o oer ar ei ôl.

Er gwaethaf hyn "rydym yma o hyd" ac yn edrych ymlaen am ddyddiau gwell sydd yn sicr o ddod rhyw ddydd.

Fe ddaw y gwanwyn cyn bo hir ac yn y cyfamser cawn weld Natur yn deffro a'n swyno gyda'i phrydferthwch.

Mae gennym ni yn Seion ynghyd ac aelodau eglwysi Bethel Heathfield Road, Bethania Waterloo, a chapeli Altrincham a Chapel Noddfa, Manceinion reswm arall i edrych ymlaen gan y byddwn yn croesawu y Parchedig Robert Parry yn Weinidog Bro arnom ddechrau Mis Ebrill. Fe'i etholwyd ef yn unfrydol fel Gweinidog Bro ar y Sul, Ionawr 24ain. Llongyfarchwn ef yn llawen gan ddymuno pob bendith arno yn ei swydd newydd.

Mae Rosamonde Turton wedi bod yn ffyddlon iawn yn mynychu ein gwasanaeth ar bnawn Sul hyd nes y bu rhaid cau'r capel ac yr oedd hi a'i diweddar ŵr, Trystan, yn ffyddlon iawn i Gymdeithas Cymry Birkenhead.

Cafodd Rosamonde newydd da arbennig dechrau'r flwyddyn yma gan fod ei merch, Cathrin Turton wedi cael ei anrhydeddu gyda'r O.B.E. Cathrin ydyw Pennaeth Swyddfa Datblygu Zimbabwe, De Affrica ac mae wedi ei anrhydeddu am wasanaethau i Cymorth Dyngarol Datblygiad Rhyngwladol.

Anfonwn ein llongyfarchiadau i Cathrin gan ddymuno pob bendith iddi yn ei gwaith yn y dyfodol.

Pob bendith arnoch a cadwch yn ddiogel.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cyrhaeddodd yr Adroddiad Blynyddol ein cartrefi o dan olygyddiaeth Mr. John P. Lyons. Mae'n lyfryn pwysig, ceir anerchiad gan y Gweinidog, lluniodd 29 ohonynt, ac y mae hwn yn tanlinellu y llawenydd ein bod yn symud ymlaen i estyn galwad i'r Parchedig Robert Parry, ein cynorthwy-ydd bugeiliol, i ddod yn Weinidog llawn amser arnom. Mae ef yn ein adnabod bellach a chefnogwn ef fel eglwys fechan. Yn ei nodiadau mynega John P. Lyons ei fwriad mae'n debyg eleni i symud i fyw i Fôn, a bydd bwlch enfawr ar ei ôl. Da gwybod bod Elin a Jim Boyd am lenwi'r bwlch a da oedd eu cael ym Mhwyllgorau yr Ofalaeth a Thrysoryddion yr Ofalaeth. Hwy ynghyd a Mrs Menna Caton a ofala am ein buddiannau ariannol. Mae ein Gweinidog wedi llwyddo i gadw'r drysau ar agor, newid aelwyd am o leiaf 18 mlynedd. Pleidleisiwyd yn 2002 ymuno gyda Bethel ond trwy ei arweiniad ef a John P. Lyons cadwyd yr achos yn Waterloo. Gwyddom y gwna'r Parchedig Robert Parry yr un ymdrech yn y blynyddoedd nesaf hyn.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Wyt Ionawr yn oer a'th farrug yn wyn*
*A pha beth a wnaethost i ddŵr y llyn?*

Daw y gwpled uchod gan y bardd o Borthmadog, Eifion Wyn.

Rydym ni wedi cael hyrddiau cyson o ymweliadau gan 'Morus y Gwynt' ac 'Ifan y Glaw' ond diolchwn ein bod i gyd wedi cael ein cadw i weld blwyddyn newydd arall yn ein hanes.

Mae ein diolch yn fawr iawn i'r gweinidog, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees sydd wedi gweithio'n ddibaid drwy cyfnod clo i ddarparu ar ein cyfer drwy y cyfrwng technegol – y *zoom*. Hyn yn ein huno i allu cyd-addoli mewn dyddiau anodd a heriol, mewn oedfa, cylch trafod a'r Gymdeithas Lenyddol.

Diolchwn hefyd i'r Parch. Robert Parry am, ei gyfraniad yntau yn ein gwasanaethu, fel cynorthwy-ydd bugeiliol a darpar Weinidog.

Nos Lun, Ionawr 11eg cawsom ddarlith ar *Gaethwasiaeth* gan ein Gweinidog Dr. Rees, a llywydd y noson oedd Mr. Mike Farnworth. Yna nos Sul, Ionawr 24 rhoddodd y Gweinidog oedfa ar thema yr *Holocost*. Mae dros wyth deg mlynedd wedi mynd heibio ers ymgais Hitler i gael gwared a'r Iddewon o Ewrop heb anghofio caethiwo'r Sipsiwn, yr anabl, pobl hoyw, a'r comiwnyddion, Tystion Jehofa. Lladdodd un miliwn ar ddeg i gyd a chwe miliwn yn Iddewon. Y cwestiwn mawr yw:

*Sut y digwyddodd hyn mewn gwlad waraidd a Christnogol fel yr Almaen?*

Beth gymhellodd Hitler i gyflawni'r weithred ffiaidd ac achosi y fath anfadwaith?

Enillodd y dydd drwy glyfrwch, twyll a thrais gan gael gwared o lawer iawn o swyddogion yn y wladwriaeth.

Llosgwyd synagogau, adeiladwyd gwersylloedd Auchwitz a Belsen. Dyna y creulondeb eithaf.

Rhaid dysgu o'r hanes erchyll hwn – gan ddewis byw yn gytun a heddychlon, gwneud safbwynt clir rhag unrhyw deimladau hiliol gwrth-semitaidd.

Oedfa oedd hon i ni holi ein hunain, a gwneud i ni deimlo'n gwbl anghyfforddus.

Diolch i Dr. Rees am baratoi ar ein cyfer, a'i ymchwiladau manwl i'r hanes tywyll hwn yn yr ugeinfed ganrif o 1933 hyd 1945.

Pnawn Llun, Ionawr 18fed cawsom Ddosbarth Trafod o 2 hyd 3 ar *zoom* ar Efengyl Ioan, Pennod 1, adnodau 1-18 o dan arweiniad ein gweinidog. *'Daeth y Gair yn gnawd'*. Y Gair yn dod yn berson o gig a gwaed. Rhydd Ioan ddarlun i ni o apêl bydeang – y Crist cosmig yn cynrychioli'r byd i gyd, Crist yr holl fyd – y Gair tragwyddol, yn feddwl a rhesymeg Duw. Y goleuni hwn yw Gobaith yr holl fyd – yn ymgnawdoliaeth Crist yn dod i dystio i'r Goleuni Dwyfol sydd yn goleuo pob cenedl.

Diolch am yr agoriad a'r drafodaeth, ac am gael y cyfle i wneuthur hynny gyda'n gilydd.

Anfonwn fel eglwys gyfarchion yr Efengyl atoch gan obeithio eich bod yn cadw'n diogel. Mae Mrs Nerys Vaughan Jones, Aigburth wedi bod am gyfnod yn yr Ysbyty Frenhinol, ond wedi cael ei symud erbyn hyn i Ysbyty Broadgreen. Mae hi'n dechrau cryfhau a dymunwn wellhad buan iddi. Gofidiwn o glywed am fab Nerys, sef Ian Vaughan sydd yn bur wael gyda coronafeirws ac yn yr Ysbyty. Cofiwn am y ddau. Cawsom newydd ardderchog fod Sara Fielding ar 1 Chwefror wedi geni merch o'r enw Efa Rebecca, a llongyfarchwn hi a'i phriod John a'r ddau deulu, taid a nain sef Dr John G. Williams a Beryl Williams a Mr a Mrs Fielding, Childwall. Cawn lun o Efa yn ein rhifyn nesaf a balch ydym fel Cymry Lerpwl yn y newydd ddyfodiad.

CYMRAEG
**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# CWESTIWN AC ATEB

Mae cynnal cwis wedi mynd yn boblogaidd iawn ar *zoom* Eglwys Bethel, Lerpwl.  Os mynnwch, ac os yw'r amser gennych, gallwch eistedd o flaen y teledu o ddechrau'r pnawn bron hyd amser swper hefo'r twidlydd yn eich llaw yn mynd o gwis i gwis. Cewch ryfeddu at ystod eang gwybodaeth ambell un a rhyfeddu fwy fyth fod ambell i greadur mor anobeithiol o fod wedi cytuno i sefyll o flaen y camera i arddangos ei anwybodaeth ddybryd.

Ar un adeg fe fyddai ar y radio gwis o'r enw *'Round Britain Quiz'*. Yn wir mae'n bosib ei fod yn parhau ond nid wyf wedi clywed amdano ers tro bellach. Yn y cwis yma, byddai'r holwr yn enwi rhyw bedwar neu bump o bethau neu leoedd a phobl ac yn gofyn i'r timau enwi'r cysylltiad rhyngddyn nhw.

Byddai'r timau wedyn am y gorau i wneud hyn a byddai'r sawl fyddai'n gallu cysylltu'r cyfan heb help  yn cael marciau llawn.

Wel, rhyw gwestiwn tebyg sydd gen i'r mis yma i'r *Angor*, a dyma fo.

***'Beth ydi'r cysylltiad rhwng Rheilffordd Tal-y-llyn, Gwalchmai a'r gyfrol Caneuon Ffydd?'***

Pwrpas gwreiddiol Rheilffordd Tal-y-llyn oedd cludo llechi o chwarel Bryn Eithin yn Abergynolwyn i Dywyn. Bu'r chwarel yn llwyddiannus am gyfnod maith ond erbyn 1909 roedd yn anodd cael deupen y llinyn ynghyd yn y chwareli bach ac roedd yn edrych yn debyg na fyddai oes hir i'r gwaith. Un gŵr oedd yn poeni am sefyllfa cyflogaeth ym Meirionnydd oedd Syr Henry Haydn Jones (1863-1950) a ddaeth yn Aelod Seneddol dros y sir y flwyddyn ganlynol. Setlodd y broblem trwy brynu prydles y chwarel, y lein a rhan helaeth o bentref Abergynolwyn.



***Syr Henry Haydn Jones***

Ganed Haydn Jones yn Rhuthun ond pan fu ei dad farw pan oedd yn blentyn bychan, daeth ei fam ag ef a'i frodyr i ardal Tywyn. Merch Caethle, Tywyn oedd hi. Roedd yna dipyn o fynd a thipyn o fodd yn y teulu. Aeth dau yn brifweithredwr cwmni yswiriant.

Bu Syr Haydn Jones yn AS (Rhyddfrydol) dros Sir Feirionnydd o 1910 hyd 1945. Teg yw dweud na wnaeth enw mawr iddo ei hun yn San Steffan fel rhai o'i gydoeswyr yno – pobl fel Aneurin Bevan, Jim Griffiths a Lloyd George ei hun. Yn wir clywais rywun yn dweud amdano nad agorodd Syr Haydn ei enau yn Nhŷ'r Cyffredin ond unwaith yn ystod y cyfnod maith y bu yno, ac roedd hynny i ofyn am gael agor ffenest! Ond cam â Syr Haydn a wnaeth y gŵr hwnnw: gwelaf yn Hansard, cofnod areithiau San Steffan, ei fod wedi siarad 427 o weithiau dros y blynyddoedd a hynny lawer iawn ar faterion cyflogaeth ac iechyd. Sicrhau gwaith yn lleol oedd y prif reswm iddo brynu chwarel Aberllefenni at yr hyn oedd ganddo yn barod.

Ond erbyn 1946, yn dilyn colledion a damweiniau, roedd yn amlwg nad allai Syr Haydn ddal ymlaen ymhellach â'r gwaith yn Ahergynolwyn. Penderfynodd gau'r chwarel a dechrau sgrapio'r offer. Er mai cludo llechi oedd prif bwrpas a gwaith y rheilffordd roedd pobl leol wedi bod yn ei defnyddio i deithio i fyny ac i lawr Dyffryn Dysynni ac roedd twristiaid hefyd wedi dechrau gweld gwerth yn y trên bach.

Rhoddwyd perswad ar Syr Haydn a chytunodd i ddal ymlaen gyda'r lein tra gallai. Felly y bu am ychydig o flynyddoedd, ond wedi marw Syr Haydn yn 1950 roedd ei weddw yn awyddus i drosglwyddo'r baich. Fel y gwyddoch, ffurfiwyd cwmni i ailagor a rhedeg y lein a phery hyd heddiw yn dynfa i filoedd yn un o ddyffrynnoedd harddaf Cymru.

Wel ie, meddech, ond beth yw'r cysylltiad â Gwalchmai? Yn Sir Fôn mae'r pentref hwnnw debyg?

Nodais gynnau fod Syr Haydn wedi colli ei dad yn gynnar. Ysgolfeistr yn Rhuthun oedd Joseph David Jones (1827-1870), gŵr galluog a thalentog iawn yn ôl poh golwg. Ymhlith ei dalentau oedd y gallu i gyfansoddi tonau cynulleidfaol a'r rhai hynny yn ganadwy ac yn gofiadwy hefyd. Mae pedair ohonyn nhw yn *Caneuon Ffydd,* sef Beddgelert (166), Harlech (290), Capel y Ddôl (576) ac, wrth gwrs, Gwalchmai (291). Mae Gwalchmai yn dôn boblogaidd nid yn unig gyda ni'r Cymry ond trwy'r byd i gyd. Ac yn haeddiannol felly gan fod sain hyder a gobaith yn y dôn, sy'n ei gwneud yn bleser i'w chanu.

***JBW***



***Rheilffordd Talyllyn***


**Cysylltwch â'r**

**YR ANGOR**

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**garthdriveben@gmail.com**

# DARLITH BWYSIG AR GAETHWASIAETH


***gan Nan Hughes Parry a lluniau gan Dr. John G. Williams***

Gwledd oedd cael gweld a chlywed darlith ar '*Gaethwasiaeth*' gan y Parchedig Ddr. D. Ben Rees a sylwi bod bron i naw deg ohonom, ar nos Lun, 11 Ionawr yn gwrando'n astud.




*Mike Farnworth*


Cyflwynwyd ef yn gryno gan Mike Farnworth gan bod y Gymdeithas Lenyddol yn y uno gyda Cymdeithas Dysgwyr Cymraeg Lerpwl. Mike Farnworth yw cynullydd y gymdeithas honno a gwna cymaint drosom gyda thechnoleg *zoom*. Gwelsom nifer o aelodau Capel Cymraeg Jewin, Llundain, ac unigolion o Gaernarfon, Manceinion, Penbedw, Caerdydd a hyfryd oedd sgwrsio gyda hwy ar ddiwedd y noson. Da gwybod bod y ddarlith hon ar gof a chadw ar *You Tube* ac edrychwn ymlaen i Nos Lun, 8 Chwefror pan gawn glywed am *Lenorion ar strydoedd Lerpwl o 1700 i 1900*. Gwledd arall yn sicr.



*William Wilberforce*
*arweinydd y mudiad i ddiddymu caethwasiaeth*





*Dathlu'r Ddeddf*






*Llong Brookes*



The Slavery Abolition Act 1833

(3 & 4 Will 4 c. 73)


10. An Act for the Abolition of Slavery throughout the British Colonies (28th August 1833)

The short title was given to this Act by the Short Titles Act 1896, Northern Ireland. This Act applies in so far as it applies to the United Kingdom as a whole.

12. After 1st August 1834, all slaves in the British colonies shall be emancipated, and slavery shall be abolished throughout the British possessions abroad

14. ....All and every the persons who on the said first day of August one thousand eight hundred and thirty-four shall be holden in slavery within any such British colony as aforesaid, shall upon and from and after the said first day of August one thousand eight hundred and thirty-four become and be to all intents and purposes free and discharged of and from all manner of slavery, and shall be absolutely and forever manumitted; and ... the children thereafter to be born to any such persons, and the offspring of such children, shall in like manner be free from their birth; and ... slavery shall be and is hereby utterly and forever abolished and declared unlawful throughout the British colonies, plantations, and posssessions abroad.

*Deddf 1833*



Wo is empowered to receive the ſame.

To be SOLD,
At the Exchange Coffee-Houſe in Water-Street, THIS DAY, the 12th Inſt. September, at One o'Clock preciſely,
ELEVEN NEGROES,
Imported per the ANGOLA.
XI George Drinkwater, Broker.

*Hysbyseb*

Darn o Hunangofiant

# TORRI GWALLT

gan E. Brian Thomas

’Roedd Hilda yn sôn ryw ddydd ei bod yn colli’n fawr y cyfle i drin ei gwallt o achos y Cofid 19 felltith, collai hefyd gymdeithasu gyda’r gennod yn y Salon ac wedyn yn mynd gyda chymdeithas o ferched Cymraeg Capel Bethel, (a Gwen), i gaffi canolfan garddio yn ymyl i drin a thrafod pynciau dwfn a phwysig. Felly ’roedd y cwrdd yn fwy na chael paned o goffi a chacen ’Roedd yn ffisig i’r meddwl yn ogystal a’r gymdogaeth. Daeth i’m meddwl wahanol feddyliau am wallt yn gyffredinol, ac am fy ngwallt fy hun yn bersonol.

Mae’n debyg mai fy Mam oedd fy nhorwr gwallt yn gyntaf, a chlywais am ‘giw pi’ yn gynnar iawn yn fy mywyd. Ar nos Sadwrn y byddem yn cael ein baddon a’n twtio yn barod at y Sul, ac yr adeg hynny, mae’n debyg, y byddai ein gwallt hefyd yn cael ei drimio. Nid wy’n cofio cael torri fy ngwallt yn bwrpasol nes cyrraedd yr oed o saith neu wyth. Mae’r cof am y torri gwallt o’r oed yma ymlaen yn fyw iawn yn fy nghof, canys y ‘barbwr’ a fyddai’n cario’r gorchwyl allan oedd Yncl Dafis.


Cyn sôn am y weithred ei hun, rhaid dweud ychydig am Yncl Dafis. Gŵr Anti Gwenni oedd Yncl Dafis, er nad oedd yn perthyn yr un dafn o waed inni fel teulu. Gŵr ydoedd i un o ffrindiau da fy Mam. Yr adeg honno ’roedd gennym gymaint o ‘Yncls’ ac ‘Antis’, fel y byddai’n anodd gwybod pwy oedd yn perthyn inni a phwy oedd ddim. ’Roedd gan Yncl Dafis un goes oedd yn llai na’r llall, o achos anhwylder nas gwyddwn ddim amdano, ac ’roedd ganddo esgid fawr ar un droed ac felly yn gloff. Gŵr hynod o ddymunol oedd, a chanddo natur hapus a chroesawgar bob amser.

’Roedd ganddo waith dyddiol llawn amser yn y Felin Wlan ym Mhenmachno, ac ef oedd yn gwbl gyfrifol am yr Wŷdd ar llawr ganol y ffatri. Peiriant hir a swnllyd a fyddai’n symud yn ôl ac ymlaen ar draws llawr yr adeilad oedd hi, a bum innau a’m ffrindiau yno lawer tro yn ei wylied wrth ei waith. Ond, yn ôl at fy ngwallt. Byddai Yncl Dafis adref o’i waith erbyn tua phump o’r gloch, ac ar ôl ei de, tua chwech, byddai’n gadael y tŷ a mynd yn reddfol bob nos, heblaw Nos Sul, i lawr i waelod ei ardd hir, lle ‘roedd ganddo gwt pren o faint go-lew. ‘Cwt Wil Dafis’, ei gelwid, ac yno ’roedd ganddo sêt hir ar hyd un ochr, ac ar ganol y llawr ‘roedd cadair arbennig a chanddi sêt grwn ledr, ar sêt yn gallu codi a disgyn i ymateb a hyd y person a eisteddai arni. Yn y gongl wrth y drws yr ochr arall i’r sêt hir ‘roedd ganddo fwrdd, ac o’i flaen stôl, a oedd yn gallu hanner eistedd arni.

’Roedd yn ‘goblar’ ar y bwrdd ac yn ‘farbwr’ ar y gadair. Byddai fy Mam yn achlysurol yn dweud, “Cer i dorri dy wallt at Yncl Dafis heno” a byddai’n rhoi pisyn tair imi. Tair ceiniog oedd pris y gorchwyl bob amser. ’Dwi ddim yn cofio i’r pris godi tra bum yn mynd ato am ‘hêrcut’. I ffwrdd a mi am y Cwt. Wedi cyrraedd, fel arfer byddai rhai eraill yno yn barod, yn oedolion a phlant. Pawb yn eistedd ar y sêt hir i aros am ei dro. Byddai wrthi yn torri gwallt rhywun ar y sêt gron, neu byddai yn hanner eistedd ar ei stôl a llond ceg o hoelion yn trwsio esgid rhywun, a’i fwrthwl yn taro hoelen ar ôl hoelen i’r sawdl neu’r wadan. Yno byddai digwyddiadau’r dydd yn cael eu trafod, rhai lleol, plwyfol neu wladol. Yno byddem yn clywed am beth oedd yn digwydd yn y wlad yma, neu Iwrop neu unrhyw le arall yn y byd; neu clywed am bwy oedd yn dyweddïo, neu’n gorfod priodi. Pwy oedd yn sâl neu’n debyg o fynd i’r Ysbyty. Byddwn ninnau y plant yn gwrando a’n cegau’n agored ar yr hanesion a’r gwahanol safbwyntiau. Roedd Cwt Yncl Dafis yn well na phapur Newydd am gylchlythyru gwybodaeth. Roedd yn trwsio bob math o esgidiau, o rhai ysgafn at y Sul at esgidiau cryfion chwarelwrs, bob seis a llun. Byddai’n trwsio bob dim o wneuthuriad lledr, fel bagiau merched neu fagiau ysgol oedd wedi cael eu cam drin. Ond dim ond un math o ‘hercut’ oedd ar gael, sef ‘short back and sides.’

Faint o gymeriadau cefn gwlad heddiw tybed sydd ganddynt dair gwahanol fath o waith i’w gyflawni bob dydd. Nid hobi, ond gwaith cyfrifol, rwy’n feddwl. Wrth edrych yn ôl ‘roedd ei ddydd gwaith yn parhau o thua wyth yn y bore hyd naw neu ddeg o’r nos! Cawr o ddyn ydoedd.

Cofio hefyd am ‘Dafis’ arall, cymydog a ni, sef Jac Dafis. ‘Roedd Jac a’i wraig gyntaf yn gymydog inni am flynyddoedd. Yn anffodus bu farw ei wraig yn ei chwe’ degau cynnar. Ar ôl rhyw flwyddyn o fyw ar ei ben ei hun ’roedd Jac wedi penderfynu chwilio am wraig newydd. Daeth i siarad â fy Nhad a phenderfynodd ymateb i hysbyseb yn y N*orth Wales Weekly News* yn gofyn am gymar. ’Roedd hyn ymell cyn dyfodiad yr ‘Internet dating’. Cafodd ymateb a phenderfynodd gael cwrdd â merch o Fae Colwyn. Cyn dyddiad y cwrdd, penderfynodd Jac y



***Brian Thomas***

byddai’n well iddo liwio’i wallt i wneud iddo edrych ychydig yn ieuengach. Gwnaeth y broses ei hun, a daeth ei wallt allan yn lliw oren dwfn. O’r dydd hwnnw ymlaen gwisgodd Jac het ar ei ben bob dydd. Er yr anffawd aeth i gwrdd â’r ferch, a’r canlyniad fu iddynt briodi cyn hir, a byw yn gytun hyd ddiwed eu bywyd.

Bum yn cael torri fy ngwallt gan Yncl Dafis nes cyrraedd fy arddegau hŷn. Erbyn yr oed hynny ‘roedd bechgyn ifanc yn dechreu ffansio eu hunain ac angen gwell ‘hercut’ na ‘short back and sides’. ‘Roedd merched deniadol angen cariadon oedd a mwy o steil, ac ‘roedd eisiau cwrdd â’r sefyllfa. Felly ‘roedd yn rhaid mynd i Salon yn Llanrwst a thalu dau swllt neu fwy am gael ‘steilio’ a chael tyfu’r gwallt tu ôl i’r pen i ddynwared pen ôl chwadan. Meddyliwch pen ôl chwadan druan! Ffwlbri ieuenctid!


Wedyn, wedi cyrraedd oedran o ddeunaw, ac wedi methu a chael digon cymhwyster i fynd i Brifysgol, mynd i gwblhau y Gwasanaeth Cenedlaethol, yn anghyfforddus iawn i le yn Lloegr, o’r enw Cardington, i ymuno â’r Llu Awyr. Cofio yn fuan ar ôl cyrraedd cael torri fy ngwallt mewn ffordd oedd yn dychryn rhywun. Sefyll yn rhes, tua deugain ohonom, ac yn cael ein symud ymlaen nes eistedd ar un o bedair cadar barbwr. Wedyn dyn a pheiriant yn ei law yn ein cneifio fel ffarmwr yn cneifio defaid, a’n gwallt drud yn disgyn ac yn llenwi’r llawr. Y cwbl wedi cymeryd tua tri munud i’w gyflawni, a phen bob un ohonom ymron yn foel, yn ddigon moel i wneud yn siwr na allai yr un pryfetyn fyw yn hir ar y moelni!

Wedi gorffen ein dienyddio, a'n troi yn ddim ond rhif oedd yn ufudd i bob rheol a gorchymyn, 'roedd y gwallt wedi tyfu ychydig ac 'roeddem i gyd yn mynd i'r N.A.A.F.I. i brynu potel o 'Brylcream', olew tew gwyn a ddefnyddid i drio cadw gwallt anystwyth yn ei le a chael rhyw fath o don ynddo er mwyn bod yn wahanol.

Aeth torri gwallt yn y chwedegau o'r ganrif ddiweddaf yn fwya mwy cymleth, a'r pris am ei dorri yn uwch ac yn uwch. Cafodd sêr y byd cerddorol poblogaidd fwy a mwy o ddylanwad ar fechgyn ieuanc, a rhai bandiau fel y 'Beatles' ac eraill, ac unigolion fel Elvis Presley a Cliff Richard yn enghreifftiau i'w hefelychu a'u dynwared. O'r herwydd daeth Salonau moethus drud i fodolaeth i ymateb â'r galwad. Mae yr un effaith wedi ei ddilyn yn awr ers degawdau. Rhaid oedd i bob cenhedlaeth gael eu hadnabyddiaeth eu hunain a chael steil wahanol i'w rhagflaenwyr.

Yn awr mae y COFID 19 wedi rhoi gwahardd ar hyn i gyd. Mae colli cymdeithasu wedi cael effaith ddwys ar fyd merched, yn enwedig ar y rhai sydd yn unig ac yn gorfod ynysu. Mae hefyd yn sicr o gael effaith ddwfn ar iechyd meddwl rhai sydd yn derbyn y wasanaeth fel therapi, oedd yn eu gwneud yn fwy hyderus i wynebu'r byd a'i broblemau. Heb hetiau i addurno'r pen, 'roedd gwallt hardd a thaclus yn ateb gofynion hynafol. Ysgwn i, beth fydd yr ymateb pan ddown allan o gyfnod y cofid? Bydd yr ymateb hwn ymhell yn y dyfodol hwyrach! Cawn weld.

# CORNEL Y TRYSORYDD



**MAWRTH 2021**

| | |
|---|---|
| Mr W. Edgar Roberts, Llanfairpwll | £25.00 |
| Mrs Undeg Cole, Cross hands | £20.00 |
| Mr a Mrs Brian Thomas, Allerton | £25.00 |
| Mrs Nan Hughes Parry, Woolton | £25.00 |
| Mr Gareth Lewis Jones, Graigfechan | £21.00 |
| Mrs Margaret Anwyl Williams, Allerton | £100.00 |
| Mr Arwel Evans, Irby | £100.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg, Penbedw | £200.00 |
| Rhodd Eglwys Bethel, Lerpwl | £300.00 |
| Er cof am mam, Mrs Elisabeth Morris gynt o Lerpwl a Llanddaniel, Sir Fôn | |
| Rhoddedig gan ei mab, Y Parchedig John G Morris Llanddaniel | £200.00 |
| Mrs M. I. Mathias. Dim cyfeiriad ***(Cysylltwch o.g.y.dd)*** | £11.00 |
| **Cyfanswm** | **£1027.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

***Myfyrdod ar***

# *DIGALONDID EITHRIADOL*

Rydw i'n cofio adeg Ail Ryfel Byd, yn mynd yn rheolaidd i'r capel ac roedden bob Sul yn cael gweinidog yn ddi-ffael er prinder petrol a thrafnidiaeth yn ansicr. Roedd llawer un yn dod o bell i'r Porth yn y Rhondda. Pwy bynnag oedd yn dod o bell roedd aelod y barod i roi cinio a the iddynt.

Ffefryn gan Mam ac fe ddaeth yn gyfaill agos oedd Parch Glynne Evans ac ar y pryd roedd yn weinidog yn Nhreharris, Cwm Rhymni ond ar ddiwedd y rhyfel fe symudodd i Lanfair Caereinion.

Mae gen i gof o'i bregeth am hanes yr Iesu yng ngwlad Gadara ac am y digalondid eithriadol gafodd yr Iesu yno. Dyma dechrau chwilio. Gyda llaw, roeddem yn cael gweinidogion o'r cymmoedd cyfagos – cofio rhai o Resolfen, Llwynhendy, Llansamlet a Thonna a chan bod Taid yn Drysorydd capel Calfaria fe welais ambell siec am y Sul sef – Bore a Hwyr: £3-00 a 5 swllt os oedd yn gweinyddu y Sacrament. Os yn bregethwr Lleyg £1-50 ac ni chai gymeryd oedfa gymun. Cofiaf, wedyn pan oeddwn yn y Gogledd yr un "prisiau" ac os oedd yn pregethu'n dda efallai cawsai'n ychwanegol hanner dwsin o wyau neu bwys o fenyn!!! Ond yn ôl at beth ddywedodd Glynne Evans am y siom a gafodd y mintai fach o ddisgyblion gyda'r Iesu.

Ar ôl chwilota a darllen Efengyl Marc fe ddeuthum ar draws yr adnod yma ym Mhennod 5 ac adnod 17. "A ddechreuasant ddymuno arno Ef fyned ymaith o'u goror hwynt". "Dangos y drws i'r Arglwydd Iesu". "On your way, butt'?!! Dyna ergyd. Yn onest iawn byddaf yn meddwl efallai bod yr adnod yma yn un o'r mwyaf trist yn y Beibl. Mae'n anodd credu hyn onid yw? Dyma'r Arglwydd Iesu yn dod i'r wlad lle roedd dioddefaint creulon yn effeithio'r pobl. Gwnewch y peth yn bersonol o'r Crist yn dod i'ch tŷ a chynnig iachad o'ch clefyd, rhoddi bendith a chi'n dweud dim diolch a chau y drws yn glep yn Ei wyneb. Y peth yw hyn hefyd mai y munud daeth i'r wlad fe ddechreuodd ar Ei waith grasol, sef iachau y GWAETHA o'i glefyd. Fe wnaeth weithrediadau o gariad pur OND roeddynt eisiau Iddo fynd. Nid oeddynt eisiau cysur, cariad, gofal nac unrhyw fendith –- DOS ODDI YMA. *Go on your way*.

Dowch rwan i lawr at heddiw. Rydwi'n siwr eich bod yn gwybod am llawer un sy'n credu yr un fath a thrigolion Gadara. Mae llawer gwelliant yn cael eu cynnig ond na, dim diolch. Mae llawer un ddim eisiau i Cristionogaeth lwyddo ac wastad yn rhoddi ryw esgus i beidio ymyrryd yn eu cynlluniau nhw i newid cymdeithas a byd. Pan rydych yn rhwystr i Satan gyfaill, mae llawer o'i waith yn methu ac mae ei fusnes yn pallu. Ond yn rhyfedd iawn os ydym ni fel Cristnogion yn mynd hanner cam AC EISIAU IDDO FE ADAEL. Ef o bawb. Ceidwad y ddynoliaeth.

Yn wir, ni arhosodd yr Arglwydd Iesu yng ngwlad Gadara ac rydw i'n sicr na wnaiff aros yn unman lle does dim Ei eisiau. Mae E'n cadw'n Ei holl ddoniau o fendithion i iachau y claf a'r anghenus, i agor llygaid y dall, i strywio gwyrthiau a bendithion di-ri ymhlith Ei fobl. Yn fwy na dim credaf "Deuwch ataf fi bawb ag sydd yn flinderog ac yn llwythog a mi a esmwythaf arnoch". Ie, mae'r cystuddiol yn aros yn flin, mae'r cloff yn dal i hercian, mae'r demoniaid yn dal i aros ac mae'r di-obaith yn dod i ofidio. Ond gyda'r Meddyg Da mae'n stori arall.

***Elwyn***

***Cyflwyno***

# MERERID HOPWOOD

## gan Dr. Pat Williams

Mae enw Mererid Hopwood yn adnabyddus gan mai hi oedd y ferch gyntaf i ennill y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol (2001). Ers hynny mae hi wedi ennill y Goron (2003) a'r Fedal Ryddiaith (2008) hefyd. Cafodd ei chasgliad o farddoniaeth *Nes Draw* ei ddyfarnu'n Llyfr y Flwyddyn yn 2016 ac enillodd wobr Tir na n-Og yn 2018 gyda'i nofel gyntaf i blant.

Yn ogystal â'r llwyddiannau hyn mae hi wedi ysgrifennu'r geiriau ar gyfer *Cantata Memoria* gan Karl Jenkins (1916) (a enillodd Wobr Arbennig y Prifweinidog iddi) ac ar gyfer yr opera *Wythnos yng Nghymru Fydd* gan Gareth Glyn (2017). Bu'n brysur fel cyfieithydd hefyd gan addasu 'llyfr bwrdd coffi' Trevor Fishlock *In this place* / *Yn y lle hwn* i ddathlu canmlwyddiant agor y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, heb sôn am drosi clasuron o'r iaith Sbaeneg ac Almaeneg i Gymraeg.



*Mererid Hopwood*

Mae'n amhosibl trafod ei gwath i gyd mewn erthygl mor fer, felly cyfyngaf fy sylwadau i'w gorchestion eisteddfodol yn unig. Mae'r awdl 'Dadeni' yn disgrifio llawenydd merch ifanc yn rhoi genedigaeth i blentyn, ac yna ei gofid wrth i'r plentyn farw. Ceir yma ddau ddadeni, y cyntaf drwy enedigaeth y plentyn:

D'eni heno yw'n nadeni innau …
Yn yr heddiw llawn lliwiau, ar unwaith,
af ar y daith i'th yfory dithau.

A'r ail, pan yw'n ailddarganfod ei ffydd ar ôl claddu'r un bach:

Ac wrth y bedd mae 'ngweddi'n
un fud, Dad – sef dy fod Ti.


Geni a marwolaeth yw thema'r bryddest hefyd. 'Gwreiddiau' yw'r testun ond nid yw'r bardd yn olrhain gwreiddiau yn y ffordd arferol. Mae'n dechrau ac yn terfynu ei cherdd drwy ddyfynu pennill o'r gân werin adnabyddus, 'Y pren ar y Bryn'. O'r pennill olaf, sy'n sôn am

Y cyw o'r ŵy,
Yr ŵy o'r nyth,
Y nyth ar y gainc,
Y gainc ar y pren,
Y pren ar y bryn,
Y bryn ar y ddaear
A'r ddaear ar ddim!

y caiff y syniad o ddadlenni breuder bywyd drwy ddisgrifio hynt a helynt dau aderyn bach sydd yn nythu yn nghanghennau'r pren, ac yn magu teulu yno cyn iddynt syrthio i'w tranc.

Mae'r nofel *O Ran* wedi ei gosod o fewn fframwaith taith trên, lle mae merch ifanc o'r enw Angharad Gwyn yn darllen proflenni cyfrol deyrnged i'w thad, sydd yn gerdddor o fri. Ond mae'n fwy na thaith yn ystyr llythrennol y gair – mae'n daith yn ôl i'w phlentyndod sydd yn dwyn i'w chof atgofion di-rif am ei theimladau o dristwch ac o lawenydd. Roedd ganddi berthynas agos â'i thad gan iddi gael ei magu ganddo ef ar ei ben ei hun wedi marwolaeth ei mam, ond y mae darllen y deyrnged yn dangos nad oedd hi yn ei adnabod gystal ag oedd hi'n feddwl, fel yr awgryma'r teitl, sydd yn ddyfyniad o linell yn emyn Ann Griffiths: 'er mai *o ran* yr wy'n ei adnabod'. Yn y nofel hon gwelir dawn Mererid Hopwood i ddeall a chyfleu meddwl plentyn wrth dyfu i fyny ac i adrodd stori afaelgar yr un pryd, gyda thro annisgwyl ar y diwedd. Cafodd ganmoliaeth fawr gan y tri beirniad yn yr Eisteddfod ac yn ei hadolygiad ar gyfer *Gwales* disgrifiodd Hafina Clwyd hi fel 'telyneg o nofel.'

Yn ogystal â bod yn fardd ac yn llenor mae Mererid Hopwood yn ysgolhaig o'r radd flaenaf. Enillodd radd dosbarth cyntaf yn Almaeneg a Sbaeneg yn Aberystwyth cyn mynd i Lundain i wneud doethuriaeth ar lenyddiaeth Almaeneg. Ers hynny mae hi wedi bod y ddarlithydd yn adrannau Cymraeg Prifysgol Abertawe a Choleg y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin ac er dechrau Ionawr 2021 mae wedi dechrau ar ei swydd newydd fel Athro'r Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth.




*Enillydd y Fedal Ryddiaith 2008*



*Enillydd y Goron Eisteddfod Meifod 2003*

## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author),***
***Rachel Gooding (Treasurer)***
***and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**
Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021, so we have time to achieve the goal of £7,500 by 1 August, 2021.
We are so grateful for List 10 as we had received by 31 January 2021 the sum of £3,410. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in June 2021.

**List one: £550; List two: £450; List 3: £200;**
**List 4: £420; List 5: £510; List 6: £185; List 7: £150;**
**List 8: £350; List 9: £325; List 10: £70**

### LIST TEN (1/1/2021 i 31/1/2021)


1) Miss Jane Lloyd Hughes, Llandudno, the sum of ..............£20
2) Bob Farnham from Venmore, Hoylake, the sum of............£50
**Total / Cyfanswm....................................£70**

So we have reached the sum of £3,410 as well at the £2,000 from the proceeds of the Welsh Book.

***Please assist as soon as it is possible for with your help we will get to our goal of £7,500, another £2,101 needed***

***Can you please send your donations to***
***Merseyside Welsh Heritage Society /***
***Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi***
***c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

## TARO E-BOST



*Rhagfyr 27, 2020*
*Annwyl Ben,*

Sut hwyl sydd arnoch acw ynghanol y Pandemic 'ma. Dwi yma yn sownd o dan do yn Abergele.

Diolch am anfon copi o'r rhifyn y We *Yr Angor*. Stori y ddwy chwaer a fu farw oherwydd Diptheria sydd wedi troi fy nghof i'r amser pan 'roeddwn yn byw yn Nhywyn, Meirionnydd yn ystod 1944 i 1948. Roedd fy Nhad yn gweinidogaethu capeli Bethesda Tywyn a Saron Bryncrug. Dyma'r epidemic Diptheria yn glanio dros Gymru a mi nath ei hoel yn yr ardal.

Dymunaf Blwyddyn Newydd Dda i chi'ch dau yn Garth Drive a darllenwyr yr Angor. Diolch

*Sion Jones, Abergele.*

*Caerdydd, 11 Ionawr 2021*

*Annwyl Olygydd,*

Derbyniais gopi o'r *Angor* (rhifyn Chwefror 2021) y dydd o'r blaen a chefais flas mawr ar ei gynnwys. Mae lle i longyfarch am hwn hefyd. Mae'n lliwgar, yn ddeniadol, a chynhwysfawr – hyd yn oed i rai heb gyswllt â Lerpwl.

*Cofion,*
*Dafydd Andrew Jones.*

# GWLEDD ZOOM O LERPWL

***(Chwefror i Ebrill 2021)***

**AR Y SUL**

**CHWEFROR:**
**Bore Sul, 7 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Ddr. D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 14 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Ddr. D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 21 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry.**
**Bore Sul, 28 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa Gŵyl Ddewi o dan ofal Robert Parry.**

**MAWRTH:**
**Bore Sul, 7 Mawrth Oedfa Dewi Sant am 11 o'r gloch. Cennad: Yr Athro D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 14 Mawrth am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry**
**Bore Sul, 21 Mawrth. Yr un cennad a'r Sul blaenorol ar zoom am 11.**
**Bore Sul, 28 Mawrth. Cloïr y tymor cyntaf gan Dr. Ben Rees mewn oedfa Sul y Blodau. Tyner, Tosturiol.**

**EBRILL:**
**Bore Sul, 4 Ebrill am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry**
**Bore Sul, 11 Ebrill am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry.**
**Bore Sul, 18 Ebrill am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Ddr. D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 25 Ebrill am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry.**

### Y GYMDEITHAS LENYDDOL

***Darlith ar Nos Lun rhwng 7.30 a 8.30***

**Nos Lun 8, Chwefror –** Yr Athro D. Ben Rees ar 'Crwydro yn Sir Fflint a Sir Ddinbych'. Llywydd: y Parch Robert Parry.
**Nos Lun, 1 Mawrth –** Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni y Dr. Bleddyn Owen Huws, Prifysgol Aberystwyth ar 'Carneddog a'i Oes'. Llywydd: Dr. D. Ben Rees.

### DOSBARTHIADAU TRAFOD

**ar y thema Cristnogaeth a Chrefyddau'r Byd**

**Sesiwn 2. Pnawn Llun 1 Chwefror 2021 (2 - 3 o'r gloch) ar Rhufeiniaid, pennod 1 adnodau 1-4 a 18-25 o dan ofal y Parch Robert Parry.**
**Sesiwn 3. Pnawn Llun 15 Chwefror 2021 (2- 3 o'r gloch) ar Colosiaid pennod 1 adnodau 15-20 o dan ofal y Parch Dr D. Ben Rees.**
**Sesiwn 4. Pnawn Llun 8 Mawrth 2021 (2-3 o'r gloch) ar Luc 5 : 17-26; Rhufeiniaid 3: 21-26 o dan ofal y Parch Robert Parry.**
**Sesiwn 5. Pnawn Llun 22 Mawrth 2021 (2 i 3 o'r gloch) ar Epistol at y Rhufeiniaid 5 :5; a: 1-27 o dan ofal Dr D. Ben Rees.**

**Croeso i bawb i bob un o'r cyfarfodydd hyn, gwledd i'r glust, i'r galon ac i'r gymuned**

# O FÔN I LERPWL


Trist oedd clywed am farwolaeth y bardd a’r cyn ysgolfeistr Machreth cyn tymor y Nadolig dyma ddarn a anfonodd ataf rai blynyddoedd yn ôl, yn dangos ei ddawn aruthrol fel cynganeddwr. Teilynga y rhain weld olau dydd.



Taith i Lerpwl dan ofalaeth y Dr D. Ben Rees a drefnwyd ar ran henoed Bodffordd a’r cylch gan Mr a Mrs Ellis Wyn Roberts ac Ann Roberts.

Dyma rai englynion ffwrdd a hi y gofynnwyd imi ysgrifennu gan hwn a’r llall ar y daith addysgiadol hon drwy brifddinas Cymry’r Gogledd.

***Uwchben carreg fedd Gwilym Deudraeth ym Mynwent Allerton***




*Gwilym Deudraeth ffraeth a ffri – yn gorwedd*
*A’n gwerin yn llonni,*
*E luniwyd i’n eleni*
*Faen ei fedd a hedd daw hi.*

***Y Parchedig Ddoethor D Ben Rees – ein Tywysydd***

*Un annwyl ac arweinydd – un a dawn*
*Hynod yw, a beunydd*
*A sêl mae yn Gymro sydd*
*Yn hynawsaf hanesydd.*

***Wrth Pall Mall (lle byddai Goronwy Owen yn cwrdd â chapteiniaid Caergybi i gael hanes Môn yn y 18fed ganrif***

*Wrth Pall Mall rhaid oedd galw – i weled*
*Hen aelwyd bu Gronw’*
*Sylwer yn cael cryn sylw*
*A sbri cyn oes ‘ni’ a ‘nhw’.*

***Hanes Harriet gwraig Gwilym Deudraeth yn dweud na roddi i faen i’w gofio gan ei fod wedi gwario ei arian ar ofer bethau’r byd. Anodd gennyf gredu hyn fy hun:***

*Harriet ni charai fetio – ac felly*
*Gyfeillion y gwnaeth ddigio*
*Yn warth byd pa werth y bo*
*Gofid heb faen i’w gofio.*

# Tribannau y Tri Mis Llwm

Mae 3 yn rif pwysig yn niwylliant y Cymry. Gellir ei olrhain yn ôl i’r ‘Trioedd’ ‘Welsh Triads’ Trioedd Ynys Prydain cyn belled a’r Oesoedd canol...

Mae 3 pen i’r pennillion telyn, Tribannau Morgannwg, ac yn gwneud swn hyfryd yn y glust... popeth yn 3 a rhyw gyswllt... a beth am 3 chynig i Gymro a “3 Phen sydd i’r bregeth y bore yma!”

Dyma finnau ym myfyrio ar gychwyn y 3 mis llwm!

**Triban Trioedd**

Tri pheth sydd yn fy mhlesio;
Bywgraffiad ambell Gymro,
Cael gweld y wyrion derfyn dydd
A newydd ddydd yn gwawrio!

**Triban Mis bach**

Mis bach sy’ nawr yn gyffro
Bob dydd mae’n gynt yn g’leuo
Daw blagur llawn i frigau’r gwŷdd
A’r wiber fydd yn deffro!

**Triban Mawrth**

Mis Dewi, neu lew lloerig
Mis brithyll brown ac oenig
Mis crempog lawn neu ludw llwyd
Mis nwyd mewn llwyn a choedwig.

*Norman Closs*
*Carmel, Treffynnon.*

# YNYS ENLLI



Pan mae'r môr yn dawel, gellir teithio o Aberdaron drosodd i Ynys Enlli, ynys sydd yn hynod o bwysig yn hanes Cymru. Dyma'r ynys sanctaidd a fu'n gartref a lloches i seintiau'r Eglwys Geltaidd. Yn wir, yn ôl traddodiad, gorwedd llwch ugain mil o saint ym mhridd yr ynys hon, a gofalodd Arglwydd Niwbwrch yn ystod y ganrif ddiwethaf nodi hynny a chroes, gan osod y geiriau canlynol arni:

Roedd saint yn golygu gwŷr a gysegrodd eu hunain i waith efengyl Crist.

Ar un adeg bu capel ac ysgol ar yr ynys ar gyfer y trigolion yno ond heddiw nid oes cymuned parhaol yno, dim ond cymuned dros dro. Pobl gan amlaf sydd â diddordeb mewn adar y môr, neu sydd am encilio am ychydig o sŵn y byd a'i boen er mwyn gallu wynebu arno drachefn.

a) "Safe in this Island
Where each saint would be
How wilt thou smile
Upon Life's stormy sea"

b) Respect
the Remains of 20,000 Saints
buried near this spot

c) In hoc loco requiescant in pace



